

# Ymateb drafft i'r ymgyngghoriad ar y ffioedd cofrestru i gymdeithion nyrsio

Hydref 2018

## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Cyflwyniad .....   | 3  |
| Cefndir .....  | 3  |
| Crynodeb gweithredol o ganfyddiadau'r ymgynghoriad .....   | 4  |
| Strwythur ein ffioedd .....  | 5  |
| Ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad a'n casgliadau.....   | 5  |
| Y strwythur ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio .....  | 5  |
| Ffioedd gwerthuso cymhwyster .....   | 9  |
| Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn yr UE/AEE .....   | 10 |
| Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE.....   | 12 |
| Ymgeiswyr a gafodd hyfforddiant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd<br>Iwerddon .....                          | 14 |
| Ffi cais am gofrestrriad cychwynnol.....   | 17 |
| Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn y DU .....  | 18 |
| Unigolion sy'n hyfforddi o fod yn gymdeithion nyrsio cyn y bydd y trefniadau<br>rheoleiddio mewn grym..... | 19 |
| Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn yr UE/AEE .....   | 22 |
| Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE.....   | 23 |
| Ffioedd cadw, adnewyddu cofrestriad ac ailfynediad .....   | 25 |
| Cofnodi cymwysterau ychwanegol .....   | 27 |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth .....   | 29 |
| Camau nesaf .....  | 31 |

## Cyflwyniad

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheolydd gofal iechyd annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwagedd yn y DU ac ar gyfer cymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Rydym yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwagedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym yn gwneud hyn drwy bennu safonau addysg, hyfforddiant, arfer ac ymddygiad, fel bod nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn gallu darparu gofal iechyd o ansawdd uchel drwy gydol eu gyrfaoedd.

Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r safonau hyn, ac mae gennym brosesau clir a thryloyw er mwyn ymchwilio i nyrsys a bydwagedd nad ydynt yn llwyddo i gyflawni ein safonau. O 2019, bydd cymdeithion nyrsio hefyd yn gallu gwneud cais i ymuno â'n cofrestr.

Nodir ein rôl, ein swyddogaethau a'n pwerau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn').

## Cefndir

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai proffesiwn gofal iechyd newydd yn Lloegr, o'r enw cymdeithion nyrsio. Ym mis Ionawr 2017, cytunom i gais yr Adran Iechyd y dylem fod yn rheolydd cymdeithion nyrsio.

Rhwng 16 Hydref 2017 a 26 Hydref 2017, bu'r Adran Iechyd yn ymgynghori ar y newidiadau oedd yn angenrheidiol i'r Gorchymyn a deddfwriaeth arall i roi pwerau cyfreithiol i ni reoleiddio cymdeithion nyrsio. Cyhoeddodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei hymateb i'r ymgynghoriad ym mis Ebrill 2018.<sup>1</sup> Yna, cymeradwyodd y Senedd y newidiadau i'n deddfwriaeth ym mis Gorffennaf 2018, a dyna pryd y daethom yn rheoleiddiwr cymdeithion nyrsio yn ôl y gyfraith. Mae'r newidiadau hyn yn ehangu ein dull rheoleiddio presennol ar gyfer nyrsys a bydwagedd (a nodir yn y Gorchymyn) i gymdeithion nyrsio. Mae'n rhain yn cynnwys ein prif swyddogaethau sef:

- cofrestru cymdeithion nyrsio cymwys yn Lloegr
- nodi safonau ymddygiad, ymarfer, addysg, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cymdeithion nyrsio yn Lloegr; a chymeradwyo rhaglenni addysg a hyfforddiant cymdeithion nyrsio yn Lloegr
- rhoi gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer ar waith er mwyn mynd i'r afael â chymdeithion nyrsio os oes pryderon ynghylch ymarfer unigolyn, a
- gwerthuso cymwysterau sydd gan bobl o'r tu allan i Loegr (yn cynnwys o rannau eraill o'r Du, yr AEE, ac yn rhyngwladol) sydd am wneud cais i ymuno â'r rhan o'r gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio.

---

<sup>1</sup> [www.gov.uk/government/consultations/regulation-of-nursing-associates-in-england](http://www.gov.uk/government/consultations/regulation-of-nursing-associates-in-england)

Fel rheoleiddiwr proffesiynol, rydym yn annibynnol ar y llywodraeth a chawn ein hariannu gan ffioedd a delir gan gofrestreion. Pennir ein ffioedd ar y lefel sy'n ofynnol er mwyn talu'r costau cyffredinol o reoleiddio'r proffesiynau yn ein cofrestr.

Gwnaethom ymgynghori ar gynigion i gyflwyno ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio rhwng 4 Rhagfyr 2017 a 26 Chwefror 2018.

Bydd yr un dull rheoleiddio yn gymwys i'r tri phroffesiwn a reoleiddir gennym – nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio. Felly, yn ein hymgyngoriad, gwnaethom gynnig y dylai ein dull gweithredu ar gyfer ffioedd cymdeithion nyrsio yn adlewyrchu'r dull ar gyfer ffioedd nyrsys a bydwagedd. £120 yw'n prif ffi er mwyn ymuno â'r gofrestr a'n ffi gofrestru flynyddol ar hyn o bryd.

Dadansoddodd cwmni ymchwil annibynnol, Why Research, ymatebion i'r ymgynghoriad. Darperir y data yn yr adroddiad hwn gan Why Research.

Cafodd yr ymgynghoriad 863 o ymatebion. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion gan unigolion (832), a chawsom 31 o ymatebion gan sefydliadau. Daeth y gyfran uchaf o ymatebion unigol gan nyrsys wedi'u cofrestru yn y DU (411 neu 49%), yna gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant (137, neu 16%) ac addysgwyr (50, neu 6%). Daeth y gyfran uchaf o ymatebion sefydliadol gan gyflogwyr nyrsys neu fydwagedd yn y GIG (15, neu 48%).

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gwnaethant nodi eu rhyw yn fenywod (54%), roedd 15% o'r ymatebwyr yn ddynion a nododd 3 ymatebydd eu bod yn anneauidd. Roedd y dosbarthiad ar draws grwpiau oedran yn gymharol gyfartal, gyda'r grŵp mwyaf rhwng 45 a 54 oed (21%). Nododd 7% o'r ymatebwyr fod ganddynt anabledd. Nododd 50% o'r ymatebwyr fod ganddynt 'unrhyw ethnigrwydd gwyn'. Roedd ethnigrwydd eraill yn cyfrif am 5% o'r ymatebwyr er bod 32% o'r ymatebwyr wedi gwrthod ateb y cwestiwn hwn. Nododd 8% o'r ymatebwyr bod eu cyfeiriadedd rhywiol yn hoyw, lesbiaid neu ddeurywiol. O ran crefydd, roedd y gyfran uchaf o'r unigolion yn Gristnogol (38%) neu heb unrhyw grefydd (24%).

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Mae eich mewnbwn wedi ein helpu i lywio ein dull gweithredu terfynol.

## **Crynodeb gweithredol o ganfyddiadau'r ymgynghoriad**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion. Yn benodol, roedd 66% yn cytuno â'r egwyddor y dylai'r strwythur ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio adlewyrchu ein strwythur ffioedd presennol ar gyfer nyrsys a bydwagedd.

Dangosodd rhai sylwadau fod rhywfaint o gamddealltwriaeth. Effeithiodd hyn ar ddau gwestiwn: [cwestiwn 4](#) a [chwestiwn 6](#). Yn gyffredinol, roedd llai o gefnogaeth i'r cynigion yn y cwestiynau hyn, ac rydym wedi mynd i'r afael â'r meysydd hyn o gamddealltwriaeth yn yr adrannau perthnasol isod.

Cafwyd lefel uchel o gefnogaeth i'r holl gwestiynau gan nyrsys a bydwagedd cofrestredig. Roedd y cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn llai cefnogol o'n cynigion,

fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd unrhyw grŵp y gofynnir iddo dalu ffi yn fwy tebygol o wrthwynebu.

Mae'n ddyletswydd statudol arnom i reoleiddio'r proffesiynau ar ein cofrestr, ac mae ein ffioedd cofrestru wedi'u nodi ar lefel sy'n cwmpasu'r costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r cyfrifoldebau statudol hyn. Cawsom sicrwydd fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion a chredwn mai hyn yw'r dull gweithredu cywir o hyd.

## **Strwythur ein ffioedd**

Mae categorïau ein ffioedd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth (Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Ffioedd) 2004) a'r rhain yw:

- Ffioedd gwerthuso cymhwyster
- Ffioedd cais am gofrestrriad cychwynnol
- Ffioedd cadw cofrestrriad
- Ffioedd adnewyddu cofrestrriad (ail-ddilysu)
- Ffioedd ailfynediad
- Ffioedd ychwanegol ar gyfer cymwysterau cofrestradwy a chofnodadwy.

Mae mwyafrif y nyrsys a bydwragedd sy'n cofrestru gyda ni wedi cwblhau eu haddysg a'u hyfforddiant yn y DU. Maent yn talu £120 i ymuno â'n cofrestr (y ffi ymgeisio am gofrestrriad cychwynnol). Ar ôl cofrestru, bydd yr holl gofrestryddion yn talu £120 y flwyddyn i aros ar y gofrestr (y ffioedd cadw ac adnewyddu (ail-ddilysu)).

Nododd yr ymgynghoriad ein cynigion ar gyfer cymdeithion nyrsio ar gyfer y categorïau ffioedd a amlinellir uchod.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Ar gyfer pob cwestiwn, rydym yn rhoi amlinelliad o'n cynigion, trosolwg o'r ymatebion a gafwyd a'n casgliadau.

## **Ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad a'n casgliadau**

### **Y strwythur ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio**

**Cwestiwn 1: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mewn egwyddor gyda'r ffaith y dylai strwythur y ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio adlewyrchu strwythur cyfredol ein ffioedd?**

Gwnaethom ystyried nifer o ddulliau posibl o bennu'r ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio yn cynnwys cynigion:

- Bod cymdeithion nyrsio yn talu'r un ffioedd â nyrsys a bydwragedd.
- Bod cymdeithion nyrsio yn talu ffioedd gwahanol i nyrsys a bydwragedd.


Bydd cymdeithion nyrsio yn wynebu'r un model o reoleiddio a'r un prosesau rheoleiddio (er enghraifft, cofrestru, ail-ddilysu, addasrwydd i ymarfer ac ati) â nyrsys a bydwragedd. Felly heb dystiolaeth i'r gwrthwyneb, nid oes gennym unrhyw sail dros

dybio y bydd costau rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn wahanol iawn i'r costau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio nyrsys a bydwagedd. O ganlyniad, cynigiodd yr ymgynghoriad y dylai'r strwythur ffioedd cyfredol fod yn gymwys i gymdeithion nyrsio.

Roedd dwy ran o dair (66%) o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion, ac roedd 25% yn anghytuno. Nid oedd 6% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 3% 'dim syniad'. Roedd yr unigolion ychydig yn fwy cefnogol o'r cynigion (66% yn cytuno), o gymharu â'r sefydliadau (65% yn cytuno).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Figur 1 : Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 1**



### Ymatebion cefnogol

O'r rhai a oedd yn gefnogol o'r cynigion ac a roddodd reswm dros eu hymateb, y brif thema a welwyd oedd y dylai'r ffi fod yr un fath ar draws yr holl broffesiynau a reoleiddir gan NMC gan y byddai'r un prosesau a dull rheoleiddiol yn gymwys. Hon oedd y thema fwyaf cyffredin ymysg addysgwyr (rhoddodd 29% ohonynt yr ateb hwn), sefydliadau (24%) a nyrsys/bydwagedd sydd wedi'u cofrestru yn y DU (20%).

Roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn y byddai cael yr un ffi yn annog proffesiynoldeb, atebolrwydd ac amddiffyn staff a chleifion, ac yn dangos pwysigrwydd rôl cymdeithion nyrsio.

Gwnaethant nodi y byddai cael yr un ffi yn sicrhau cydraddoldeb, tegwch a chysondeb ac yn adlewyrchu'r costau i reoleiddio cymdeithion nyrsio. Gwnaethant hefyd bwyntio at y ffaith nad oes unrhyw wahaniaeth mewn ffioedd rhwng nyrsys cofrestredig a bydwagedd ar hyn o bryd, er bod ganddynt gyflogau gwahanol. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai unrhyw wahaniaeth mewn ffioedd yn golygu y byddai'r nyrsys cofrestredig neu'r bydwagedd yn sybsideiddio ffioedd cymdeithion nyrsio.

## Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill

Prif safbwynt yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn ac a roddodd safbwyntiau oedd y dylai'r ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio fod yn is nag ar gyfer nyrsys a bydwagedd, gan y bydd cymdeithion nyrsio yn ennill llai na nyrsys cofrestredig. Mae cymdeithion nyrsio yn debygol o gael cyflog Band 4.<sup>2</sup> Ymysg yr ymatebwyr gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant roedd y thema hon fwyaf cyffredin (rhoddodd 49% o'r cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yr ateb hwn).

Roedd rhai ymatebwyr (13% o'r sawl a oedd yn anghytuno) o'r farn y dylem gysylltu'r ffioedd ag enillion neu y dylent adlewyrchu enillion posibl.

Roedd ymatebwyr eraill yn dadlau y byddai gan gymdeithion nyrsio lai o gyfrifoldeb, neu'n tybio y byddai'n rhaid iddynt gael eu goruchwyllo gan nyrs gofrestrdig. Er enghraifft, nododd un sylw:

*"...o ystyried bod gan gymdeithion nyrsio lai o siawns i ymarfer na nyrsys cofrestredig a bod eu hymarfer yn cael ei oruchwyllo gan nyrsys cofrestredig, mae'r risg o niwed yn llai ac felly dylai'r gost i'r rheoleiddiwr fod yn is."* [sefydliad proffesiynol neu undeb llafur]

Dyweddodd rhai ymatebwyr hefyd y dylai'r ffioedd fod yn is gan fod y cymwysterau sydd eu hangen ar gymdeithion nyrsio yn wahanol i'r rhai sydd eu hangen ar nyrs.

Gofynnodd nifer o ymatebion gan sefydliadu am wybodaeth am faint y risg y byddai nyrsys a bydwagedd yn sybsideiddio'r broses o reoleiddio cymdeithion nyrsio a'r tebygolrwydd y byddai'n digwydd.

## Casgliad

Mae nifer o'r themâu a gododd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymddangos yn aml mewn ymatebion i gwestiynau eraill drwy gydol yr ymgynghoriad. Felly, rydym wedi mynd i'r afael â'r themâu hyn yn llawn isod, a byddwn yn cyfeirio'n ôl at yr adran hon pan fo'n berthnasol.

Rydym yn croesawu'r ymateb cadarnhaol cyffredinol i'r cynnig hwn. Cafwyd llawer o gefnogaeth i'r cwestiwn hwn, gan ddangos bod ymatebwyr o blaid yr egwyddor sy'n sail i'n cynigion o gymhwyso'r un strwythur ffioedd i gymdeithion nyrsio. Roedd y gefnogaeth ar gyfer y cynnig yn arbennig o gryf ymysg nyrsys/bydwagedd sydd wedi'u cofrestru yn y DU (80% o'r sawl a ymatebodd) ac addysgwyr (82%).

Mae'n amlwg i ni bod yr ymatebion gan bobl sydd eisoes ar ein cofrestr yn dangos nad oes unrhyw ddyhead gan nyrsys a bydwagedd i ni bennu ffi is ar gyfer cymdeithion nyrsio. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn llai cefnogol o'r cynigion, gyda dim ond 36% yn cytuno.

---

<sup>2</sup>Mae hyn yn cyfeirio at y cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid (<https://www.healthcareers.nhs.uk/working-health/working-nhs/nhs-pay-and-benefits/agenda-change-pay-rates>)

Roedd rhai o'r ymatebion yn sôn am lefel y goruchwylio a chyfrifoldeb a fyddai gan gymdeithion nyrsio am gostau is (oherwydd, yn eu barn nhw, byddai'n lleihau'r siawns o wallau) ac am ffi is felly. Fodd bynnag, mae lefelau goruchwylio a chyfrifoldeb eisoes yn amrywio ymysg pobl ar ein cofrestr (er enghraifft, yn aml, mae gan nyrsys sydd newydd gymhwyso lefel uwch o oruchwylio o gymharu â nyrsys uwch). Felly nid ydym yn credu bod hyn yn cyfiawnhau ffi ar wahân i gymdeithion nyrsio.

Nododd rhai ymatebwyr hefyd y byddai gan gymdeithion nyrsio gwmpas ymarfer cyfyngedig a thynnwyd ein sylw at hyn eto fel cyfiawnhad dros ffi is. Byddwn yn pennu'r safonau medrusrwydd ar gyfer cymdeithion nyrsio a bydd angen i gymdeithion nyrsio gyrraedd y safonau hyn cyn y gallant gofrestru. Fodd bynnag, yn yr un modd â phroffesiynau eraill, gall cymdeithion nyrsio ddatblygu cymwyseddau ychwanegol, ac mae'n bosibl bod gan ddarparwyr iechyd a gofal bolisïau lleol a threfniadau llywodraethu ar waith er mwyn galluogi staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas i gyflawni gweithdrefnau ychwanegol. Fel y cyfryw, byddai'n amhriodol gostwng y ffi ar gyfer cymdeithion nyrsio ar y sail hon.

Nid ydym yn gwahaniaethu o ran y ffioedd a godir gennym yn seiliedig ar broffesiwn, (hynny yw, nyrs neu fydwraig) nac yn seiliedig ar gyflog unigolyn. Roedd rhai o'r ymatebion a oedd yn cefnogi'r broses o gymhwyso'r un ffi i gymdeithion nyrsio yn cydnabod hyn.

Rydym yn rhagweld y bydd gan gymdeithion nyrsio rôl Band 4 yn y GIG. Mae'r cyflog blynyddol presennol ar gyfer rolau Band 4 rhwng £19,409 a £22,683. Ar ôl cymhwyso, bydd nyrsys oedolion a bydwagedd cofrestredig yn dechrau eu gyrfaedd yn y GIG ar Fand cyflog 5, sy'n cwmpasu cyflogau blynyddol rhwng £22,128 a £28,746<sup>3</sup>, felly bydd rhai nyrsys a bydwagedd Band 5 sydd eisoes ar ein cofrestr yn ennill yr un cyflogau â darpar gymdeithion nyrsio.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai gan gymdeithion nyrsio derfyn cyflog. Mater i'r cyflogwyr ac i'r GIG yw'r cyflogau a roddir i unigolion. Mae'n bwysig nodi bod bandiau'r Agenda ar gyfer Newid yn cwmpasu cyflogeion yn y sector cyhoeddus. Mae'n bosibl y caiff unigolion mewn rolau yn y sector preifat neu sector arall eu talu'n wahanol.

Rydym yn gwerthfawrogi bod rhai rheoleiddwyr gofal iechyd yn gwahaniaethu o ran y ffi maent yn ei chodi ar gyfer proffesiynau ar wahân neu ar gyfer y sawl sydd ar incwm is. Fodd bynnag, rydym yn credu yn gyffredinol bod ein ffioedd yn cymharu'n ffafriol â'r ffioedd a godir gan reoleiddwyr eraill.

Rhan o'n rôl fel rheoleiddiwr yw sicrhau ein bod yn talu costau rheoleiddio drwy'r ffioedd a godir gennym. [Yn 2014, gwnaethom adolygu cost cyflawni ein swyddogaethau a'n hymrwymiaid statudol a'r ffioedd a delir gan nyrsys a bydwagedd.](#) Dangosodd hyn mai'r gost reoleiddio flynyddoedd oedd £120 y person. Yn yr ymgynghoriad hwn, gwnaethom gynnig pennu'r ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio ar yr un lefel â'r ffioedd ar gyfer nyrsys a bydwagedd ar y sail y bydd yr un fframwaith rheoleiddio yn gymwys i gymdeithion nyrsio.

---

<sup>3</sup> Ffigurau o'r Agenda ar gyfer Newid – cyfraddau cyflog o fis Ebrill 2017.

[www.healthcareers.nhs.uk/working-health/working-nhs/nhs-pay-and-benefits/agenda-change-pay-rates](http://www.healthcareers.nhs.uk/working-health/working-nhs/nhs-pay-and-benefits/agenda-change-pay-rates)



Dangosodd ein hadolygiad yn 2014 fod y ffioedd arfaethedig yn cwmpasu cost gyffredinol y fframwaith rheoleiddio hwnnw. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i ddangos y bydd hyn yn wahanol i gymdeithion nyrsio. Fel y trafodwyd yn ein hymgyngoriad, rydym yn adolygu ein ffioedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r costau rheoleiddio ar gyfer pawb ar ein cofrestr.

Fel yr amlygwyd yn ein hymgyngoriad, bydd cymdeithion nyrsio yn cael yr opsiwn o ledaenu cost eu ffi flynyddol dros bedwar rhandaliad chwarterol. Os na fydd eu cyflogwr yn talu neu'n ad-dalu eu ffi, byddant hefyd yn gallu hawlio gostyngiad treth ar eu ffi flynyddol drwy Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Byddwn yn ystyried sut y gallwn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r opsiynau hyn i gymdeithion nyrsio sy'n ymuno â'r gofrestr.

Am y rhesymau hyn a'r rhai a amlinellir yn yr ymgynghoriad, rydym yn dal i fod o'r farn y dylai'r strwythur ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio adlewyrchu ein strwythur ffioedd presennol ar gyfer nyrsys a bydwragedd.

## **Ffioedd gwerthuso cymhwyster**

Fel rhan o'n rôl fel y rheolydd, rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU a byddwn yn sicrhau ansawdd rhaglenni addysgu yn y DU. Byddwn yn gwneud hyn drwy gymeradwy darparwyr addysg i ddarparu rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth ar sail ein safonau addysg. Yna, byddwn yn sicrhau bod y darparwyr hyn yn atebol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i fodloni ein safonau.

Felly, gallwn deimlo'n fodlon bod pobl sy'n meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd gan y darparwyr hyn yn y DU a gymeradwywyd gan yr NMC wedi bodloni ein safonau ni heb yr angen i ni wneud gwaith gwerthuso pellach.

Gan fod y llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi penderfynu peidio â chyflwyno na rheoleiddio cymdeithion nyrsio, yn unol â'n deddfwriaeth dim ond yn Lloegr y bydd gennym bwerau i bennu safonau ar gyfer cymdeithion nyrsio a sicrhau ansawdd rhaglenni addysg ar gyfer cymdeithion nyrsio. Mae hynny'n golygu ar gyfer cymdeithion nyrsio, mai dim ond cymwysterau a ddyfernir gan ddarparwyr a gymeradwywyd yn Lloegr fydd yn bodloni ein safonau heb fod angen gwerthusiad pellach.

Os bydd pobl sy'n gwneud cais i ymuno â'n cofrestr yn meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd mewn gwledydd lle nad oes gennym y grym i gymeradwyo cymwysterau ynddynt, bydd angen i ni werthuso eu cymhwyster. Trosglwyddir y gost o wneud hyn i'r ymgeisydd trwy gyfrwng ffi gwerthuso cymhwyster.

Cynigiodd yr ymgynghoriad ffioedd gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr â chymwysterau a ddyfarnwyd yng ngwledydd yr UE/AEE, gwledydd nad ydynt yn yr UE/AEE a Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle nad oes gennym y pwerau i gymeradwyo cymwysterau.

## Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn yr UE/AEE

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio, sydd wedi hyfforddi yn yr UE/AEE, fod yr un fath â'r ffi a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £110 ar hyn o bryd?**

Ceir sawl ffordd y gall unigolion sydd wedi hyfforddi yng ngwledydd yr UE/AEE ymuno â'n cofrestr.

Dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, mae gan rai yr hawl i gael eu cymwysterau wedi'u cydnabod yn awtomatig. Efallai y bydd eraill yn gymwys i gael eu cydnabod dan lwybr y 'system gyffredinol'.

Mae llwybr y 'system gyffredinol' yn mynnu ein bod yn asesu cymwysterau ymgeisydd yn unigol trwy gymharu'r hyfforddiant a gwblhawyd yn eu gwlad nhw gyda'n gofynion hyfforddiant yn y DU, gan gynnig mesurau cymhwyso, yn ôl yr angen.

Ni fydd ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio ac sydd wedi hyfforddi yn yr UE/AEE yn gymwys i fanteisio ar y broses cydnabod awtomatig, felly byddent yn gwneud cais trwy lwybr y 'system gyffredinol'.


Rydym yn codi ffi o £110 ar nyrsys a bydwagedd sydd â chymwysterau o'r UE/AEE i gwmpasu cost ein proses o werthuso cymwysterau UE/AEE. Mae'r tâl hwn yn cynrychioli cost gyfartalog cais yn yr UE/AEE.

Nid ydym yn gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr sy'n gymwys i fanteisio ar y broses cydnabod awtomatig a'r rhai sy'n gymwys ar gyfer llwybr y 'system gyffredinol' ar hyn o bryd o ran y ffi a godwn. Felly, cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid codi'r un ffi o £110 i ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer ar gyfer cymdeithion nyrsio sydd â chymwysterau o'r UE/AEE.

Roedd dros hanner (58%) yr holl ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig. Roedd 35% yn anghytuno, nid oedd 6% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 1% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg sefydliadau (62%) o gymharu ag unigolion (57%).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Ffigur 2: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 2**



### **Ymatebion cefnogol**

O'r ymatebwyr hynny a roddodd reswm dros eu hateb, y brif thema gefnogol oedd y dylai'r ffi fod yr un fath, oherwydd y byddai'r costau i reoleiddio cymdeithion nyrsio yr un fath. Dyma oedd y brif thema ymysg sefydliadau (codwyd hyn gan 33% o'r sefydliadau).

Soniodd rhai ymatebwyr am yr angen am gydraddoldeb, cysondeb neu degwch gan nodi y byddem yn cymhwyso'r un prosesau a dull rheoleiddio i gymdeithion nyrsio ag i nyrsys a bydwagedd.

### **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

Roedd y sylwadau a gafwyd gan y sawl sy'n llai cefnogol o'r cynigion yn debyg i'r ymatebion a gafwyd yng nghwestiwn 1, a'r brif thema oedd y dylai lefel y ffioedd fod yn is oherwydd y bydd cymdeithion nyrsio yn ennill llai na nyrsys cofrestredig. Dyma oedd y brif thema ymysg grwpiau ymateb a roddodd reswm dros eu hateb, heblaw am sefydliadau.

Roedd sylwadau eraill yn awgrymu y dylai'r ffi fod yn is oherwydd y gwahaniaethau rhwng nyrsys a chymdeithion nyrsio a'u cymwysterau, neu am y byddai gan gymdeithion nyrsio lai o gyfrifoldeb neu am eu bod yn tybio y byddai'n rhaid i gymdeithion nyrsio gael eu goruchwylion gan nyrs gofrestredig.

Holodd un sefydliad pam na fyddai ffi uwch yn cael ei chodi ar gymdeithion nyrsio am y byddent yn cael eu prosesu drwy "lwybr y 'system gyffredinol' sy'n ddrutach".

*"Mae'n debygol y bydd angen i ymgeiswyr gael eu hasesu drwy lwybr y 'system gyffredinol' sy'n ddrutach, ond ni chafodd hyn ei ystyried yn y cynnig... mae hefyd yn ymddangos yn rhyfedd, ar gyfer rôl gefnogi nad yw wedi'i chysoni, y dylai*

*ymgeiswyr o'r AEE dalu llai nag ymgeiswyr y DU o'r awdurdodau datganoledig.*"  
[sefydliad proffesiynol neu undeb llafur]

## Casgliad

Croesawn yr ymateb cadarnhaol i'r cynnig hwn. Nodwn, yn gyffredinol, bod y themâu a nodwyd yn adlewyrchu'r rhai a nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 1 (ar ein strwythur ffioedd arfaethedig). [Rydym wedi ymateb i'r rhan fwyaf i'r sylwadau hyn uchod.](#)

Rydym yn cydnabod y bydd ymgeiswyr i fod yn gymdeithion nyrsio a gafodd hyfforddiant yn yr UE/AEE yn gwneud cais drwy lwybr y 'system gyffredinol'. Fel y nodwyd yn ein hymgyngoriad, ar hyn o bryd, rydym yn codi un ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer pob ymgeisydd yn yr UE/AEE sy'n adlewyrchu cost gyfartalog proses werthuso'r UE/AEE. Mae hyn oherwydd, ar gyfer ymgeiswyr i fod yn nyrsys a bydwragedd, ni allwn sefydlu ar adeg y cais p'un a yw'r cais yn gymwys ar gyfer cofrestrriad awtomatig neu a fydd angen iddo gael ei brosesu drwy'r system gyffredinol.

Pe byddem yn codi ffi wahanol ar gymdeithion nyrsio, yna ni fyddai hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor gyffredinol a ddisgrifir yng nghwestiwn 1 (ac a gefnogir gan yr ymatebion), o gymhwyso'r un dull i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Byddai hefyd yn golygu y byddai lefelau gwahanol o ffioedd ar gyfer ymgeiswyr yn cael eu prosesu drwy'r un llwybr 'system gyffredinol' (un ffi ar gyfer ymgeiswyr i fod yn gymdeithion nyrsio a ffi wahanol ar gyfer ymgeiswyr i fod yn nyrsys a bydwragedd). Felly, cynigiodd yr ymgyngoriad ymestyn ffi bresennol yr UE/AEE o £110 i gymdeithion nyrsio.

Fel y nodwyd yn ein hymgyngoriad, byddwn yn adolygu'r costau hyn yn rheolaidd wrth i ni barhau i wella effeithlonrwydd ein proses gwneud cais.

Rydym yn dal i fod o'r farn mai ymestyn ffi gwerthuso cymhwyster presennol yr UE/AEE i ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio yw'r opsiwn tecach a'r un sy'n cyd-fynd orau â'r egwyddor a gynigiwyd (ac a gefnogwyd) yng nghwestiwn 1.

## Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi am werthuso cymhwyster i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE fod yr un fath â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwragedd, sef £140 ar hyn o bryd?**

Am y rhesymau a nodir uchod, rhaid gwerthuso cymwysterau ymgeiswyr sydd â chymwysterau a ddyfarnwyd y tu allan i'r UE/AEE hefyd er mwyn i ni allu sicrhau eu bod yn bodloni ein safonau.


Mae hyn yn golygu proses werthuso sydd, ar hyn o bryd, yn cynnwys asesiadau o'u tystysgrifau cymwysterau a thrawsgrifiadau. Rydym yn gwneud hyn ar sail unigol. Er mwyn cwmpasu ein costau, rydym yn codi ffi gwerthuso cymwysterau o £140 ar yr ymgeiswyr hyn.

Bydd ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio ac sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE yn cael yr un broses werthuso ag ymgeiswyr i fod yn nyrsys a bydwragedd. Felly, cynigiodd yr ymgynghoriad y dylai'r ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr i fod yn gymdeithion nyrsio fod yr un fath.

Roedd 57% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, a 32% yn anghytuno. Nid oedd 9% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 3% 'dim syniad'. Roedd y lefel cytuno ymysg unigolion (56%) a sefydliadau (57%) yn debyg.

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cwmpasu ymgeiswyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Figur 3: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 3**



### **Ymatebion cefnogol**

O'r sawl a oedd yn cytuno â'r cynnig, y brif thema o'u hymatebion oedd y dylai'r ffi fod yr un fath, oherwydd y byddai'r costau ar gyfer cymdeithion nyrsio yr un fath. Dyma oedd y brif thema ymysg addysgwyr ac roedd yn un o'r prif themâu ymysg sefydliadau a nyrsys/bydwragedd sydd wedi'u cofrestru yn y DU.

Fel gyda chwestiynau blaenorol (1 a 2), ymysg y themâu amlwg eraill roedd cydraddoldeb, cysondeb neu degwch ac y dylai'r ffioedd fod yr un fath, oherwydd y byddai'r un prosesau a dull rheoleiddio yn gymwys.

### **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

O'r sawl a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a roddodd reswm, prif thema eu hymatebion oedd bod cymdeithion nyrsio yn ennill cyflog is na nyrsys cofrestredig, fel y disgrifir uchod. Hwn oedd y prif ateb a roddwyd gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant.

Ymysg y themâu amlwg eraill roedd y dylai'r ffi fod yn is oherwydd y gwahaniaethau rhwng nyrsys a chymdeithion nyrsio o ran eu rolau a'u cymwysterau, ac y dylai'r ffi fod yn is am ei bod yn rhy ddrud ac y gallai olygu bod pobl yn penderfynu peidio â gwneud cais.

### **Themâu mewn ymatebion (cefnogol ac anghefnogol)**

Nodwyd thema arall mewn ymatebion, ni waeth p'un a oeddent yn gefnogol neu'n anghefnogol o'n cynnig, sef yr angen i sicrhau proses gadarn ac archwilio i bawb, a/neu yr angen i sicrhau ansawdd yr hyfforddiant. Ymddangosodd y thema hon mewn 9% o'r ymatebion yn gyffredinol; 13% o'r rhai a oedd yn cytuno, 4% o'r rhai a oedd yn anghytuno, a 33% o'r rhai a roddodd ateb niwtral.

### **Casgliad**

Yn ogystal â'r themâu a nodwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol, ac a archwiliwyd [uchod](#), ar gyfer y cwestiwn hwn, tynnodd ymatebwyr llai cefnogol sylw at bwysigrwydd sicrhau nad oedd y ffi ar gyfer y sawl nad oeddent wedi'u hyfforddi yn yr UE/AEE wedi atal pobl rhag gwneud cais. Fodd bynnag, cafodd hyn ei gydbwysu gan ymatebion eraill gan yr angen i sicrhau bod prosesau cadarn ar wwaith a bod lefelau ansawdd yn cael eu cynnal.

Ein prif ddyletswydd yw diogelu'r cyhoedd, Pan na allwn bennu'r safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer unigolion yn uniongyrchol, rydym yn cynnal gwerthusiad trylwyr er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cyrraedd ein safonau uchel. Rydym yn gofyn i'r ymgeiswyr gwmpasu cost y broses hon, drwy ffi gwerthuso cymhwyster. Fel gydag unrhyw ffi, rydym yn cydnabod y bydd hyn yn cael effaith ariannol ar yr ymgeiswyr, ond fel rheoleiddiwr, sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, mae angen i ni dalu ein costau. Os na fyddwn yn codi ffi gwerthuso ar ymgeiswyr, byddai angen i'r bobl ar ein cofrestr dalu'r gost hon. Mae hyn yn unol â'r dull a ddefnyddir gan reoleiddwyr eraill.

Credwn y gellir cyfiawnhau'r prosesau sydd gennym ar waith er mwyn gwerthuso cymwysterau na chânt eu dyfarnu yn yr UE/AEE o ystyried yr angen i sicrhau diogelwch y cyhoedd. Credwn hefyd ei bod yn iawn trosglwyddo cost y gwerthusiad hwn i'r ymgeisydd. Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn mai'r cynnig a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yw'r dull gweithredu cywir.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, rydym wrthi'n adolygu ein dull gweithredu mewn perthynas â'r broses o wneud cais dramor er mwyn sicrhau ei bod yn syml a chost-effeithiol, ac yn cynnal rheoliadau cadarn er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Gall canlyniad yr adolygiad hwn gael goblygiadau ar gyfer y ffi a godwn ar ymgeiswyr nad ydynt o'r UE/AEE, yn cynnwys y sawl a fydd yn gwneud cais i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio. Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw gynigion i newid y ffi yn y dyfodol.

### **Ymgeiswyr a gafodd hyfforddiant yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon**

**Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r ffaith y dylai'r ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac y maent wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fod yn £140?**


Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwagedd ledled y DU ond, dim ond yn Lloegr y byddwn yn rheoleiddio cymdeithion nyrsio. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio ein cofrestr, a gafodd eu hyfforddi yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, yn dibynnu ar gymwysterau na fyddant wedi'u dyfarnu gan ddarparwr addysg i gymdeithion nyrsio sydd wedi'i gymeradwyo. O ganlyniad, bydd angen i ni werthuso eu cymwysterau er mwyn penderfynu a ydynt yn bodloni ein gofynion addysg a hyfforddiant.

Bydd y broses y byddwn yn ei defnyddio i werthuso'r ceisiadau hyn i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr yn debyg i'r broses a ddefnyddir gennym ar hyn o bryd i werthuso ceisiadau ar gyfer nyrsys a bydwagedd o'r tu allan i'r UE/AEE (cwestiwn 3). Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys gofyn am dystiolaeth, yn cynnwys tystysgrifau cymhwyster, er mwyn cynnal asesiadau unigol, a sicrhau bod yr ymgeiswyr yn bodloni ein safonau cyn eu caniatáu ar ein cofrestr. Felly, cynigiodd yr ymgynghoriad ffi gwerthuso cymhwyster o £140 ar gyfer ymgeiswyr a gaiff eu haddysg yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Roedd 43% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, ac roedd 44% o'r ymatebwyr yn anghytuno. Nid oedd 10% o'r ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 3% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg unigolion, gyda 40% o'r unigolion yn cytuno, o gymharu â 39% o'r sefydliadau.

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad').

**Ffigur 4: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 4**



## Ymatebion cefnogol

Ar gyfer yr ymatebwyr hynny a roddodd reswm dros eu hateb, y brif thema gefnogol oedd y byddai'r cynnig yn sicrhau cydraddoldeb, cysondeb neu degwch ac y byddai'n adlewyrchu costau gweinyddol.

## Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill

Y brif thema a gododd o blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a roddodd resymau dros hyn, oedd na ddylai'r ffi fod yn uwch na'r ffi yn Lloegr neu y dylai fod yn gyson ledled y DU. Dyma oedd y brif thema gan nyrsys/bydwagedd nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU (34%) ac addysgwyr (44%). Ymysg sefydliadau, prif thema'r ymatebion oedd na ddylai'r ffi fod yn uwch nag ar gyfer ymgeiswyr o'r UE.

Er enghraifft:

*"Nid oes gan Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon unrhyw gynlluniau hyd yma i gyflwyno'r rôl hon, ond gan fod y Prif Swyddogion Nyrsio wedi cymryd diddordeb mawr yn y gwaith a wnaed i ddatblygu'r rôl hon, mae'n debygol, os bydd y sefyllfa hon yn newid, y byddai'r un model yn cael ei gyflwyno. Felly nid yw'r sefydliad yn ystyried y dylid eu trin yn wahanol."* [sefydliad proffesiynol neu undeb llafur]

Y brif thema gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant a roddodd resymau dros eu hymatebion oedd y dylai lefel y ffioedd fod yn is oherwydd y byddai cymdeithion nyrsio ar gyflog is na nyrsys cofrestredig a byddai ganddynt derfyn cyflog gan y byddent yn aros ar gyflogau Band 4.

Roedd themâu eraill o'r grŵp hwn yn cynnwys:

- dylai'r ffioedd fod yn is am eu bod yn rhy ddrud a gallai hynny olygu na fydd pobl yn gwneud cais
- dylai'r ffioedd fod yn is gan nad yw rôl y cydymaith nyrsio yr un fath â rôl y nyrs gofrestrredig ac mae'r cymwysterau sy'n ofynnol yn wahanol.

## Themâu mewn ymatebion (cefnogol ac anghefnogol)

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, amlygwyd yr angen i sicrhau'r un broses gadarn ac archwilio i bawb, a/neu yr angen i sicrhau ansawdd yr hyfforddiant yn yr ymatebion (4% yn gyffredinol; 12% o'r rhai a oedd yn cytuno a 17% o'r rhai a roddodd ateb niwtral).

## Casgliad

Roedd y lefel cytuno yn y grwpiau yn is yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn o gymharu â'r cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad.

Yn ogystal â sylwadau am lefel y ffi yn gyffredinol, a archwiliwyd yn ein hymateb i gwestiwn 1, cafwyd rhai sylwadau penodol ynghylch cymhwyso ffi gwerthuso cymhwyster i ymgeiswyr sydd wedi cael hyfforddiant yng Nghymru, yr Alban neu



Ogledd Iwerddon, gyda rhai ymatebwyr yn nodi y dylai'r ffioedd fod yr un fath ledled y DU. Gwnaethom gydnabod yn yr ymgynghoriad bod hwn yn fater cymhleth, ac roedd yn amlwg o'r ymatebion bod rhai unigolion wedi camddeall y cynigion.

Rydym yn deall y dyhead i gael dull gweithredu unedig ledled y DU, a dyma'r dull rydym yn ei gymryd mewn perthynas â nyrsys a bydwagedd, a reoleiddir gennym ledled y DU. Fodd bynnag, yn achos cymdeithion nyrsio, penderfynodd llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon nad oeddent am gyflwyno na rheoleiddio'r rôl ar hyn o bryd. Mae'r newidiadau i'n deddfwriaeth yn adlewyrchu hyn.

Mae ein deddfwriaeth ond yn ein galluogi i bennu safonau a sicrhau ansawdd rhaglenni addysg mewn gwledydd lle mae gennym y pŵer i reoleiddio. Ar gyfer cymdeithion nyrsio, mae hyn yn golygu mai dim ond yn Lloegr y bydd gennym y pŵer i bennu safonau a sicrhau ansawdd.

Ar gyfer ymgeisywr a gymhwysodd yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, bydd angen i ni werthuso eu cymhwyster yn yr un modd ag y byddwn yn gwerthuso ceisiadau gan unigolion sydd â chymwysterau nad ydynt o'r UE/AEE. Mae hyn oherwydd, o dan ein deddfwriaeth, ni allwn ddwyn darparwyr addysg yn y gwledydd hyn i gyfrif er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni ein safonau. Pe na fyddem yn newid ffi gwerthuso cymhwyster i ymgeisywr, byddai angen i'r bobl ar ein cofrestr dalu'r gost hon. Rydym yn teimlo y byddai hyn yn annheg, a dyma'r rheswm pam rydym yn cynnig codi ffi gwerthuso cymhwyster ar ymgeisywr o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Os bydd y llywodraethau yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn penderfynu cyflwyno a rheoleiddio cymdeithion nyrsio, ac mai ni fydd y rheoleidiwr, ni fyddai angen i ni godi ffi gwerthuso cymhwyster ar ymgeisywr o'r gwledydd hyn. Byddai hyn oherwydd y byddai gennym y pwerau i gymeradwyo rhaglenni addysg yn y gwledydd hyn a'u dwyn i gyfrif.

Nododd rhai ymatebwyr fod ffi gwerthuso cymhwyster yr UE/AEE yn is na'r ffi gwerthuso cymhwyster rydym yn bwriadu ei godi ar ymgeisywr sydd wedi'u hyfforddi yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Rydym wedi egluro'r rhesymau y tu ôl i ffi gwerthuso cymhwyster yr UE/AEE [uchod](#) ac wedi nodi ein bod yn adolygu ein prosesau. Ni allwn brosesu ceisiadau gan unigolion sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon fel ymgeisywr o'r UE/AEE gan nad yw'r ddeddfwriaeth a fyddai'n ein galluogi i wneud hyn yn gymwys iddyn nhw fel gwledydd unigol. Dim ond y DU sy'n un o aelod-wladwriaethau dynodedig yr UE, nid Cymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon fel gwledydd unigol.

## **Ffi cais am gofrestrriad cychwynnol**

Ar ôl i ni werthuso'u cymhwyster, bydd angen i ni asesu cais ymgeisydd am gofrestrriad llawn, a bydd yn rhaid iddynt dalu ffi cais am gofrestrriad cychwynnol. Bydd hon yn cynnwys blwyddyn gyntaf eu cyfnod cofrestru cyntaf hefyd (tair blynedd yw hyd cyfnod cofrestru).

Oherwydd y bydd ein holl swyddogaethau rheoleiddio yn gymwys i gymdeithion nyrsio, yn yr un modd â nyrsys a bydwagedd, nid oes gennym unrhyw sail i dybio y bydd y costau rheoleiddio yn is neu'n uwch. Felly, gwnaethom gynnig bod strwythur ffioedd

cais cofrestru cychwynnol ar gyfer cymdeithion nyrsio yn adlewyrchu'r ffioedd ar gyfer nyrsys a bydwagedd.

## Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn y DU


**Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yr un peth â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?**

Rydym yn codi ffi cais am gofrestrriad cychwynnol o £120 ar ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn y DU. Nid oes gennym unrhyw sail dros gyfiawnhau codi ffi wahanol ar gymdeithion nyrsio. Cynigiodd yr ymgynghoriad ffi cofrestru cychwynnol o £120 ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Roedd 57% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. roedd 36% yn anghytuno, nid oedd 6% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 1% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg unigolion (58%) o gymharu â sefydliadau (57%).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Ffigur 5: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 5**



## Ymatebion cefnogol

Unwaith eto, prif thema'r ymatebion cefnogol oedd y dylai'r ffi fod yr un fath i bawb er mwyn sicrhau cydraddoldeb, cysondeb neu degwch. Ymysg y prif themâu eraill o blith y

rhai a oedd yn cytuno roedd: bod y ffi yn adlewyrchu costau rheoleiddio, ac y byddai'r ffi yr un fath gan y byddai'r un prosesau a dull rheoleiddio yn gymwys.

### **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

Fel gyda chwestiynau blaenorol, roedd y brif thema a welwyd mewn ymatebion gan y sawl sy'n anghytuno â'r cynnig yn ymwneud â chyflogau cymdeithion nyrsio (dylai lefel y ffi fod yn is oherwydd y bydd cymdeithion nyrsio yn ennill llai na nyrsys cofrestredig). Dyma oedd y prif ateb a roddwyd gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant ac, yn yr achos hwn, dyma oedd y brif thema ymysg nyrsys/bydwagedd ac addysgwyr sydd wedi cofrestru yn y DU hefyd.

Ymysg y themâu eraill o blith y rhai a oedd yn anghytuno roedd:

- dylai'r ffi fod yn is gan nad yw rôl y cydymaith nyrsio yr un fath â rôl y nyrs gofrestrdig ac mae'r cymwysterau sy'n ofynnol yn wahanol
- dylai'r ffi fod yn is gan fod gan gymdeithion nyrsio lai o gyfrifoldeb neu mae'r ymatebwyr yn tybio bod yn rhaid iddynt gael eu goruchwylio gan nyrs gofrestrdig
- dylai'r ffi fod yn is (heb roi rheswm dros y farn honno)
- dylem gysylltu'r ffi ag enillion neu dylai adlewyrchu enillion posibl.

### **Casgliad**

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Pan oedd yr ymatebwyr yn anghytuno, roedd themâu eu hymatebion yn adlewyrchu'r rhai a amlinellwyd yng nghwestiwn 1. Rydym yn dal i fod o'r farn mai ein dull arfaethedig yw'r un cywir.

### **Unigolion sy'n hyfforddi o fod yn gymdeithion nyrsio cyn y bydd y trefniadau rheoleiddio mewn grym**

**Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestriad cychwynnol ar gyfer yr unigolion hynny sy'n hyfforddi i fod yn gymdeithion nyrsio cyn y bydd y trefniadau rheoleiddio mewn grym, fod yr un fath â'r ffi a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?**

Ar ddechrau 2017, cychwynnodd tua 2,000 o unigolion ar eu hyfforddiant i fod yn gymdeithion nyrsio ar raglen beilot a ddatblygwyd gan Health Education England (HEE). Yn ychwanegol i'r rhaglen beilot hon, datblygodd y Sefydliad Prentisiaethau Safon prentisiaeth ar gyfer cymdeithion nyrsio – bydd rhai myfyrwyr yn cychwyn ar eu prentisiaethau cyn i ni bennu'r safonau a chymeradwyo rhaglenni addysg.

Er y bydd yr unigolion hyn wedi cychwyn ar eu hyfforddiant cyn i ni fod yn rheolydd cymdeithion nyrsio, bydd newidiadau i'n deddfwriaeth yn cynnig llwybr i'r grŵp hwn i ymuno â'n cofrestr ar ôl iddynt gymhwyso<sup>4</sup>. Byddwn yn eu trin fel petai ganddynt gymhwyster cymeradwy ar yr amod eu bod yn bodloni ein safonau medrusrwydd. Yn

---


<sup>4</sup> Mae'r Gorchymyn yn sicrhau y bydd y llwybr hwn ar gael i'r sawl a gwblhaodd neu a gychwynnodd ar eu hyfforddiant cyn 26 Gorffennaf 2019.

ein hymgyngoriad, gwnaethom gynnig codi ffi cofrestru cychwynnol o £120 ar yr unigolion hyn.

Roedd ychydig dros hanner (53%) yr holl ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 39% yn anghytuno â'r cynnig, nid oedd 6% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 2% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg unigolion (53%) o gymharu â sefydliadau (48%).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Ffigur 6: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 6**



### **Ymatebion cefnogol**

Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn eu bod yn cytuno'n gyffredinol, heb nodi rheswm dros hynny. Roedd themâu eraill eto yn ymwneud â sicrhau cydraddoldeb, cysondeb neu degwch a'r angen i adlewyrchu costau gweinyddol.

### **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

I'r ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a roddodd resymau, prif thema eu hymatebion oedd y dylai'r ffi fod yn is oherwydd y byddai cymdeithion nyrsio ar gyflog is na nyrsys cofrestredig a byddai ganddynt derfyn cyflog gan y byddent yn aros ar gyflog Band 4. Dyma oedd y prif ateb a roddwyd gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant a dyma oedd y brif thema ymysg nyrsys/bydwagedd ac addysgwyr sydd wedi cofrestru yn y DU.

Ymysg y themâu eraill roedd:

- dylai'r ffi fod yn gysylltiedig ag enillion neu dylai adlewyrchu enillion posibl
- dylai'r ffi fod yn is gan nad yw rôl y cydymaith nyrsio yr un fath â rôl y nyrs gofrestrdig ac mae'r cymwysterau sy'n ofynnol yn wahanol
- dylai'r ffi fod yn is (heb roi rheswm).

### Ar draws yr ymatebion

Ymddangosodd thema newydd yn dangos bod rhywfaint o gamddealltwriaeth wedi codi yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn: na ddylai fod yn rhaid i gymdeithion nyrsio dalu nac ymuno â'r gofrestr 'cyn y bydd y trefniadau rheoleiddio mewn grym' (11% o'r holl ymatebion, 2% o'r sawl a oedd yn cytuno, 14% o'r sawl a oedd yn anghytuno a 23% o'r sawl a roddodd ymateb niwtral). Ymysg yr enghreifftiau o'r sylwadau roedd:

*"Sut y gallwch godi ffi am reoliad nad yw mewn grym? Byddai'r cymdeithion nyrsio yn talu'r arian heb wybod beth maent yn ei gael yn gyfnewid am hynny."* (cydymaith nyrsio dan hyfforddiant)

*"Os na chânt eu rheoleiddio, ni ddylent fod yn talu ffi."* (nyrs nad yw wedi cofrestru yn y DU).

Nododd cyfran fach o'r ymatebwyr (2% yn gyffredinol) hefyd nad oedd neu na fydd y sawl oedd yn dilyn y rhaglen beilot yn ymwybodol o'r ffioedd posibl.

### Casgliad

Roedd ychydig dros hanner (53%) yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig, gyda'r prif themâu cefnogol a llai cefnogol yn adlewyrchu'r rhai a godwyd mewn ymateb i gwestiynau blaenorol. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, roedd yr ymatebion hefyd yn nodi bod y cynnig hwn wedi cael ei gamddeall i raddau.

Nododd cyfran helaeth o'r sawl a oedd yn anghytuno neu a roddodd ymateb niwtral ac a roddodd reswm dros hynny na ddylai fod angen i gymdeithion nyrsio dalu nac ymuno â'r gofrestr cyn bod rheoliad mewn grym. I egluro, ni fyddwn yn codi ffioedd ar gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant o raglenni peilot na phrentisiaethau HEE cyn bod rheoliad mewn grym. Dim ond pan fydd unigolion yn gwneud cais i ymuno â rhan cymdeithion nyrsio y gofrestr, a fydd ar agor ym mis Ionawr 2019, y byddwn yn codi'r ffi arnynt.

Nododd nifer fach o'r ymatebwyr ei bod yn bosibl na fydd cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant presennol yn gwybod y bydd angen iddynt dalu ffi. Rydym yn hyderus bod y cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant cyntaf i ymuno â'n cofrestr yn ymwybodol o'r ffi. Cytunodd ein Cyngor i reoleiddio cymdeithion nyrsio ym mis Ionawr 2017, sef yr adeg y cychwynnodd y cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant cyntaf ar eu rhaglenni. Rydym wedi bod yn ymgysylltu â nhw ynghylch beth mae rheoleiddio yn ei olygu ers hynny. Ar ein gwefan, mae gennym ardal benodol i gymdeithion nyrsio, ac rydym yn dosbarthu cylchlythyr yn rheolaidd i gymdeithion nyrsio, y mae nifer sylweddol o gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant wedi cofrestru ar ei gyfer. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant drwy ddigwyddiadau ac yn ystod y broses ymgynghori.

Nawr bod gennym y pwerau cyfreithiol i reoleiddio cymdeithion nyrsio, ac wrth i ni nesáu at agor rhan cymdeithion nyrsio y gofrestr ym mis Ionawr 2019, byddwn yn cynyddu ein gohebiaeth â chymdeithion nyrsio dan hyfforddiant er mwyn iddynt fod yn hollol barod i wneud cais i ymuno â'r gofrestr.

## Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn yr UE/AEE


### **Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi yn yr UE/AEE fod yr un peth â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?**

Ar hyn o bryd, rydym yn codi ffi cais am gofrestrriad cychwynnol o £120 ar ymgeiswyr sydd â chymwysterau wedi'u dyfarnu yn yr UE/AEE. Gwnaethom gynnig codi'r un ffi ar gyfer ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr.

Roedd 58% o'r ymatebwyr yn cytuno. Roedd 33% o'r ymatebwyr yn anghytuno, nid oedd 8% yn cytuno nac yn anghytuno, ac atebodd 1% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg unigolion (58%) o gymharu â sefydliadau (50%).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

***Ffigur 7: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 7***



## Ymatebion cefnogol

Eto, yr angen i sicrhau cydraddoldeb, cysondeb neu degwch oedd prif thema'r ymatebion cefnogol i'r cwestiwn. Dyma oedd y prif sylw gan nyrsys/bydwagedd sydd wedi cofrestru yn y DU.

Un thema arall oedd y byddai hyn yn adlewyrchu costau gweinyddol (y prif sylw gan addysgwyr). Roedd nifer o'r ymatebwyr eraill yn cytuno â'r cynnig ond heb roi rheswm.

### **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

Ar gyfer yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd y brif thema o'u hymatebion eto yn ymwneud â chyflog cymdeithion nyrsio (dylai lefel y ffi fod yn is oherwydd y byddent ar gyflog is a byddai ganddynt derfyn cyflog gan y byddent yn aros ar gyflog Band 4. Dyma oedd y prif sylw a roddwyd gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant.

Ymysg y themâu eraill o blith y rhai a oedd yn anghytuno roedd:

- dylai'r ffi fod yn is gan nad yw rôl y cydymaith nyrsio yr un fath â rôl y nyrs gofrestredig ac mae'r cymwysterau sy'n ofynnol yn wahanol
- dylai'r ffi fod yn is (heb roi rheswm)
- dylai'r ffi fod yn is gan fod gan gymdeithion nyrsio lai o gyfrifoldeb neu mae'r ymatebwyr yn tybio bod yn rhaid iddynt gael eu goruchwylio gan nyrs gofrestredig
- mae'r gost yn ymddangos yn isel neu dylai fod yn uwch, o ystyried y gwaith dan sylw.

### **Casgliad**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig ac ni chododd unrhyw themâu newydd yn yr ymatebion. Rydym wedi mynd i'r afael â'r themâu hynny na wnaethant godi yn ein hymateb i'r cwestiynau blaenorol. Felly, rydym yn fodlon mai dyma yw'r dull gweithredu cywir.

### **Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE**

**Cwestiwn 8: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sydd wedi cael eu hyfforddi y tu allan i'r UE/AEE fod yr un fath â'r hyn a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £153 ar hyn o bryd?**


Y ffi cais am gofrestriad cychwynnol i unigolion sy'n meddu ar gymwysterau rhyngwladol yw £153 ar hyn o bryd. Mae'r gwahaniaeth o ran lefel y ffi ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gwneud cais o'r tu allan i'r UE/AEE yn adlewyrchu'r costau gweinyddol ychwanegol y bydd yn rhaid i ni eu talu wrth brosesu eu ceisiadau nhw am gofrestriad cychwynnol.

Oherwydd y bydd y prosesau hyn yr un fath i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sy'n meddu ar gymwysterau o'r tu allan i'r UE/AEE, mae'r ymgynghoriad yn cynnig codi'r un ffi cais am gofrestriad cychwynnol ar yr ymgeiswyr hyn, sef £153.

Roedd 57% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig. Roedd 31% o'r ymatebwyr yn anghytuno, nid oedd 9% yn cytuno nac yn anghytuno, ac atebodd 2% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg unigolion (57%) o gymharu â sefydliadau (55%).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Ffigur 8: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 8**



### **Ymatebion cefnogol**

Yr angen i sicrhau cydraddoldeb, cysondeb neu degwch oedd y brif thema ymysg yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig a dyma oedd un o'r prif sylwadau gan nyrsys/bydwagedd sydd wedi cofrestru yn y DU.

Roedd themâu eraill yn ymwneud â'r angen i adlewyrchu costau gweinyddol a sicrhau'r un broses gadarn, archwilio a/neu'r angen i sicrhau ansawdd hyfforddiant.

### **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

O'r sawl a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a roddodd reswm, roedd y brif thema yn ymwneud â chyflog cymdeithion nyrsio (dylai'r ffi fod yn is oherwydd y byddai cymdeithion nyrsio ar gyflog is na nyrsys cofrestredig). Hwn oedd y prif ateb a roddwyd gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant.

Ymysg y themâu eraill o blith y rhai a oedd yn anghytuno roedd:

- dylai'r ffi fod yn is am ei bod yn rhy ddrud a gallai hynny olygu na fydd pobl yn gwneud yn gwneud cais
- dylai'r ffi fod yn is (heb roi rheswm)
- mae'r ffi bresennol yn rhy uchel
- mae'r gost yn ymddangos yn isel neu dylai fod yn uwch
- dylem gysylltu'r ffi ag enillion neu dylai adlewyrchu enillion posibl.



## Casgliad

Rydym eisoes wedi cwmpasu nifer o'r themâu a gododd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn ein hymatebion i gwestiynau blaenorol. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, awgrymodd rhai ymatebwyr fod y ffi bresennol ar gyfer pob ymgeisydd sydd o'r tu allan i'r UE/AEE yn rhy uchel. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y costau yn rhy isel neu y dylent fod yn uwch. Fel yn yr ymateb i gwestiwn 3, o ran y ffi ar gyfer cymhwyster o'r tu allan i'r UE/AEE, roedd rhai ymatebwyr hefyd yn pryderu y byddai'r ffi yn golygu na fyddai pobl yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr.

Rydym wedi nodi uchod, er ein bod yn cydnabod effaith ariannol ffioedd ar ddarpar ymgeiswyr, ein prif ddyletswydd yw diogelu'r cyhoedd. Mewn ymateb i'r sylwadau bod y ffi bresennol yn rhy uchel, neu'n rhy isel, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad ac uchod, rydym wrthi'n adolygu ein prosesau gwneud cais i'n holl ymgeiswyr o'r tu allan i'r UE/AEE. Bydd hyn yn effeithio ar bob ymgeisydd o'r tu allan i'r UE/AEE, p'un a ydynt yn nyrsys, bydwagedd neu gymdeithion nyrsio. Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffi sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn. Tan hynny, rydym yn dal i fod o'r farn ei bod yn iawn ymestyn y dull presennol i gymdeithion nyrsio.

## Ffioedd cadw, adnewyddu cofrestriad ac ailfynediad

**Cwestiwn 9: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu ffioedd cofrestru, ffioedd adnewyddu cofrestriad a ffioedd ailfynediad ar yr un lefel i gymdeithion nyrsio â'r ffioedd a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?**

Mae'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol yn cynnwys blwyddyn gyntaf y cyfnod cofrestru cychwynnol o dair blynedd. Am y ddwy flynedd nesaf, bydd cofrestreion yn talu ffi gadw flynyddol er mwyn cynnal eu cofrestriad. Mae'r ffi flynyddol hon yr un fath i bob cofrestrai, ble bynnag y maent wedi hyfforddi. Ar ddiwedd eu cyfnod cofrestru, rhaid iddynt fynd trwy broses ailddilysu a thalu ffi i adnewyddu eu cofrestriad. £120 yw'r ffioedd hyn. Mae hyn yn golygu bod pob unigolyn yn talu ffi flynyddol o £120 ar ôl cofrestru.


Os daw cofrestriad unigolyn i ben ac os byddant yn dymuno ailymuno â'r gofrestr, codir £120 arnynt am ailfynediad neu am adfer eu henw i'r gofrestr.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig ymestyn y dull gweithredu hwn i gymdeithion nyrsio, fel y byddent yn talu ffi cadw flynyddol o £120, £120 i adnewyddu eu cofrestriad ar ddiwedd y cyfnod cofrestru a £120 os bydd eu cyfnod cofrestru wedi dod i ben a'u bod am wneud cais am ailfynediad.

Roedd 58% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, a 37% yn anghytuno. Nid oedd 5% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 1% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg unigolion (57%) o gymharu â sefydliadau (48%).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cynnwys ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Ffigur 9: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 9**



### **Ymatebion cefnogol**

Unwaith eto, prif thema'r ymatebion gan y sawl a oedd yn cefnogi'r cynigion oedd y dylai'r ffi fod yr un fath er mwyn sicrhau cydraddoldeb, cysondeb neu degwch. Ceir sylwadau bod y ffi yn adlewyrchu cost rheoleiddio hefyd.

### **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

O'r sawl a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac a roddodd reswm, roedd y brif thema yn ymwneud â chyflog cymdeithion nyrsio (gweler uchod). Dyma oedd y prif ateb a roddwyd gan gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant a dyma oedd y brif thema yn y sylwadau gan nyrsys/bydwragedd ac addysgwyr sydd wedi cofrestru yn y DU a sefydliadau.

Ymysg y themâu eraill o blith y rhai a oedd yn anghytuno roedd:

- dylai'r ffi fod yn is gan nad yw rôl y cydymaith nyrsio yr un fath â rôl y nyrs gofrestredig ac mae'r cymwysterau sy'n ofynnol yn wahanol.
- dylai'r ffi fod yn gysylltiedig ag enillion neu dylai adlewyrchu enillion posibl
- dylai'r ffi fod yn is (heb roi rheswm dros y farn honno)
- dylai'r ffi fod yn is gan fod gan gymdeithion nyrsio lai o gyfrifoldeb neu mae'r ymatebwyr yn tybio bod yn rhaid iddynt gael eu goruchwylio gan nyrs gofrestredig
- mae'r ffi bresennol yn rhy uchel.

### **Casgliad**

Cododd yr ymatebwyr themâu tebyg mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ag i gwestiwn 1. Tynnodd y sawl a oedd yn cefnogi'r cynnig sylw at egwyddorion tegwch a

chydraddoldeb a'r angen i dalu costau rheoleiddio. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno yn gyffredinol o'r farn bod gwahaniaethau rhwng y proffesiynau nyrsys a chymdeithion nyrsio a'u cymwysterau a lefel eu cyflog yn golygu y dylai'r ffi fod yn is.

Rydym wedi archwilio ac wedi rhoi ein hymatebion i'r themâu hyn [uchod](#). Hefyd, fel y nodwyd, rydym wedi pwysleisio ein bod yn adolygu ein ffioedd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cwmpasu costau rheoleiddio'r unigolion ar ein cofrestr.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ac felly ni allwn weld unrhyw reswm arall dros newid ein dull gweithredu ar gyfer cymdeithion nyrsio.

## Cofnodi cymwysterau ychwanegol


**Cwestiwn 10: A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu mai £23 am gymhwyster cofrestradwy fydd y ffi er mwyn i gymdeithion nyrsio gofnodi cymwysterau ychwanegol, yn unol â'r ffioedd a delir gan nyrsys a bydwagedd?**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig codi'r un ffi am gofnodi cymhwyster cofrestradwy ar gyfer cymdeithion nyrsio ag ar nyrsys a bydwagedd. Er enghraifft, os bydd nyrs gofrestredig hefyd am gofnodi cymhwyster fel bydwraig, byddem yn codi £23 am wneud hyn.

roedd 68% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. roedd 21% yn anghytuno, nid oedd 9% yn cytuno nac yn anghytuno ac atebodd 2% 'dim syniad'. Roedd y lefelau cytuno yn uwch ymysg unigolion (68%) o gymharu â sefydliadau (62%).

Mae'r graff hwn yn dangos y lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Nid yw'n cwmpasu ymgeiswyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno na'r rhai a atebodd 'dim syniad'.

**Ffigur 10: Lefelau cytuno ac anghytuno mewn ymateb i Gwestiwn 10**



## **Ymatebion cefnogol**

Prif thema'r ymatebion cefnogol i'r cwestiwn hwn oedd yr angen i sicrhau cydraddoldeb, cysondeb neu degwch. Nododd sylwadau eraill y dylai'r ffi fod yr un fath oherwydd y byddai'r costau i reoleiddio cymdeithion nyrsio yr un fath.

## **Sylwadau anghefnogol neu sylwadau eraill**

Roedd prif thema'r sylwadau gan y sawl a oedd yn llai cefnogol o'r cynnig yn gysylltiedig â chyflogau unwaith eto (bydd cymdeithion nyrsio yn ennill llai na nyrsys cofrestredig).

Thema arall a welwyd ymysg y rhai a oedd yn anghytuno oedd y dylid cynnwys ychwanegu cymwysterau yn y gost cofrestru ac adnewyddu, neu y dylai fod am ddim.

Ni roddodd ymatebwyr eraill unrhyw reswm dros eu hateb neu gwnaethant nodi'r gwahaniaethau rhwng nyrsys a chymdeithion nyrsio a'u cymwysterau fel cyfiawnhad o'u barn y dylai'r ffi fod yn is.

## **Themâu mewn ymatebion (cefnogol ac anghefnogol)**

Roedd prif thema'r cwestiwn hwn, yn yr holl atebion, yn ymwneud ag ymholiadau ynghylch beth fyddai'n digwydd pe byddai cydymaith nyrsio yn dod yn nyrs gofrestredig, neu pa gymwysterau y byddai angen i gydymaith nyrsio eu cofrestru (14% yn gyffredinol; 15% o'r rhai a oedd yn cytuno, 43% o'r rhai a roddodd ateb niwtral a 6% o'r rhai a oedd yn anghytuno).

Ymhlith yr enghreifftiau o'r sylwadau roedd:

*"Pe byddai Cydymaith Nyrsio yn symud ymlaen i gwblhau rhaglen nyrsio cyn cofrestru ac yn dod yn nyrs gofrestredig, a fyddai'r egwyddor hon yn gymwys o hyd?" (cyflogwr yn y GIG)*

*"Mae angen egluro beth sy'n gymhwyster cofrestradwy ar gyfer y grŵp hwn" (nyrs wedi cofrestru yn y DU)*

## **Casgliad**

Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn. Roedd sawl un o'r themâu yn adlewyrchu'r rhai a gododd mewn cwestiynau blaenorol, rydym wedi mynd i'r afael â nhw uchod. Fodd bynnag, cododd nifer o themâu newydd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Gofynnodd cyfran fawr o'r ymatebwyr am eglurhad ynghylch yr amgylchiadau y byddem yn cymhwyso'r ffi.

Cymwysterau cofrestradwy yw'r rhai sy'n galluogi unigolyn i gofnodi rhan benodol o'r gofrestr, er enghraifft cymhwyster fel nyrs, cydymaith nyrsio neu fydwaig. Mae hyn yn golygu y gall unigolyn gael cofrestrriad deuol. Yn lle gofyn i gofrestryddion gyflwyno cais hollol newydd i ymuno â'r gofrestr pan fyddant yn cael cymhwyster cofrestradwy

ychwanegol, rydym yn galluogi unigolion i gofnodi eu cymhwyster ychwanegol am ffi fechan o £23. Mae'r ffi hon yn cwmpasu'r costau gweinyddol dan sylw.

Cynigiodd yr ymgynghoriad gymhwyso'r dull gweithredu hwn i gymdeithion nyrsio felly, pe byddai cydymaith nyrsio cofrestredig yn cymhwyso fel nyrs, y byddai'n gallu talu ffi o £23 er mwyn ychwanegu'r cymhwyster nyrsio at y cofnod cofrestru presennol.

O ystyried y gefnogaeth gref i'r cynnig hwn, a'r gefnogaeth i'r egwyddor o gymhwyso strwythur y ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd i gymdeithion nyrsio, nid ydym yn gweld unrhyw reswm i ddiwygio'r cynnig hwn.

## **Cydraddoldeb ac amrywiaeth**


Cafwyd rhai gwahaniaethau mewn ymatebion i gwestiynau yn yr ymgynghoriad rhwng grwpiau demograffig. Roedd y rhai a oedd yn dosbarthu eu hunain yn y categori 'unrhyw ethnigrwydd arall' yn llai cefnogol o'n cynigion na'r rhai yn y categori 'unrhyw ethnigrwydd gwyn'. Fodd bynnag, nodwn fod nifer yr unigolion a oedd yn dosbarthu eu hunain yn y categori 'unrhyw ethnigrwydd arall' yn isel iawn (5% o'r ymatebwyr) ac felly efallai nad yw'n gynrychioliadol. Felly, mae'n anodd iawn dod i gasgliadau ystyrlon o'r gwahaniaethau mewn ymatebion. Er hyn, byddwn yn monitro'r sefyllfa mewn ymatebion i ymgynghoriadau yn y dyfodol.

### **Cwestiwn 11: A fydd unrhyw rai o'r cynigion hyn yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig hyn (gan gynnwys nyrsys, bydwagedd, cleifion a'r cyhoedd)?**

Nid oedd bron i hanner yr holl ymatebwyr (48%) yn disgwyl gweld unrhyw effeithiau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o weld effeithiau cadarnhaol (23%) o gymharu â rhai negyddol (9%). Cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant oedd y grŵp oedd fwyaf tebygol o weld effeithiau cadarnhaol ar y cyfan (34%). Roedd unigolion yn fwy tebygol (23%) o weld effeithiau cadarnhaol ar y cyfan na sefydliadau (11%).

Mae'r graff canlynol yn dangos y dadansoddiad cyffredinol o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn:

**Ffigur 11: Dadansoddiad o'r ymatebion i Gwestiwn 11**



Cafwyd rhai gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran gwahanol (gyda'r grŵp 35-44 oed yn fwy tebygol o ddisgwyl gweld effeithiau cadarnhaol a'r grŵp 45-54 oed yn fwy tebygol o beidio â disgwyl gweld unrhyw effeithiau), a rhwng pobl o wahanol ethnigrwydd (roedd y grŵp 'ethnigrwydd arall' yn fwy tebygol (40%) o ddisgwyl gweld effeithiau cadarnhaol ar y cyfan ac roedd y grŵp 'unrhyw ethnigrwydd gwyn' yn fwy tebygol (52%) o beidio â disgwyl gweld unrhyw effeithiau).

### **Y rhai nad oeddent yn disgwyl gweld unrhyw effaith**

O'r rhai nad oeddent yn disgwyl gweld unrhyw effaith, y brif thema oedd nad oedd rheswm dros gael unrhyw effaith oherwydd y byddem yn trin pob unigolyn yn deg. Y themâu eraill oedd y byddai'r cynigion yn effeithio ar bawb yn gyfartal ac nad oeddent yn gwahaniaethu, a bod polisïau eisoes ar waith neu fod nodweddion gwarchoddedig yn cael eu diogelu yn y gyfraith.

### **Y rhai oedd yn disgwyl gweld effeithiau cadarnhaol**

Y brif thema ymysg yr ymatebwyr hyn oedd y byddai cofrestriad yn diogelu cleifion a staff.

### **Y rhai a oedd yn disgwyl gweld effeithiau negyddol**

Y brif thema ymysg y rhai a oedd yn disgwyl gweld effeithiau negyddol ac a roddodd eu rhesymau oedd y byddai'r ffioedd yn effeithio ar y rhai ar incwm isel, neu ar bobl hŷn neu bobl anabl.

## **Y rhai a nododd nad oedd ganddynt syniad**

Y brif thema ymysg yr ymatebwyr hyn oedd bod y proffesiwn cydymaith nyrsio yn newydd ac felly bod yr effaith yn anhysbys.

### **Casgliad**

Rydym yn croesawu'r ffaith nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn disgwyl gweld unrhyw effeithiau negyddol neu'n disgwyl gweld effeithiau cadarnhaol ar y cyfan. Rydym hefyd yn nodi mai cymdeithion nyrsio dan hyfforddiant oedd y grŵp oedd fwyaf tebygol o ddisgwyl gweld effeithiau cadarnhaol ar y cyfan.

Rydym wedi nodi'r sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn disgwyl gweld effeithiau negyddol. Fel y nodir uchod, mae gan gofrestryddion yr opsiwn i dalu eu ffi flynyddol mewn rhandaliadau chwarterol a gallant hawlio gostyngiad treth, os na fydd eu cyflogwr yn talu neu'n ad-dalu eu ffi. Byddwn yn ystyried sut y gallwn gyfleu'r opsiynau hyn ymhellach i gymdeithion nyrsio.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddarau ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a'n cynllun gweithredu, a ddefnyddir gennym i fonitro, ac os bydd angen, i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol diangen sy'n deillio o'n gwaith.

### **Cwestiwn 12: Sut allwn ddiwygio'r cynigion er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau?**

Roedd y brif thema o'r ymatebion yn ymwneud â sylwadau ynghylch lefel y ffioedd, gan adlewyrchu'r themâu a nodir yng nghwestiynau 1-10 ac nid ydynt yn berthnasol i gwestiwn 12 yn uniongyrchol.

Ymysg y sylwadau eraill roedd yr angen i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal neu i hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad cyfartal (13% o'r ymatebion) ac i sicrhau y cynhelir ymgynghoriadau parhaus a phrosesau cyfathrebu agored (7% o'r ymatebion). Nododd 11% o'r ymatebion nad oedd angen unrhyw ddiwygiadau.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddarau ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a'n cynllun gweithredu.

## **Camau nesaf**

Os bydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion, bydd yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'n Rheolau a gaiff eu cyflwyno i'r Senedd i'w cymeradwyo yn yr hydref 2018. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod y ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio yn weithredol mewn pryd i'r cymdeithion nyrsio cyntaf ymuno â'r gofrestr ym mis Ionawr 2019.